# Astudiaeth achos: datblygu dull dysgu llwyddiannus dan arweiniad y plentyn

**Amy Baugh yw rheolwraig Meithrinfa Ddydd Chuckles, sydd wedi ei lleoli yn Bettws, Casnewydd. Agorodd y Feithrinfa yn Nhachwedd 1999 ac mae ganddi enw da am ddarparu gofal ac addysg o safon uchel i blant ac wedi gweithredu fel lleoliad 'arweiniol' o fewn consortia Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) (y gwasanaeth gwella addysg ar gyfer pump awdudod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, a Thorfaen).**

**Mae'r feithrinfa wedi ei chofrestru ar gyfer 70 ac mae'n darparu gofal dydd llawn i blant o 6 wythnos oed nes bod plentyn yn mynychu ysgol llawn amser. Mae meithrinfa dydd Chuckles yn derbyn cyllid addysg gynnar ar gyfer plant 3 a 4 oed ac yn darparu y cynnig gofal plant.**

**Mae Chuckles yn ymfalchio o fod yn feithrinfa garfretol, diogel, gyda lleoliad unigryw sy'n darparu gofal o safon uchel dan arweiniad y plentyn. Mae wedi ei lleoli mewn acer o dir gyda hanner hwnnw ar gyfer chwarae awyr agored ar gyfer pob oed.**

## Beth mae 'dan arweiniad plentyn' yn ei olygu i chi?

Gwrando ar beth mae plant yn ei ddweud wrthym, nid dim ond drwy'r hyn maen nhw'n ei ddweud ond hefyd yn ôl yr hyn maen nhw'n ei wneud - defnyddio arsylwi i ganfod beth sydd o ddiddordeb iddynt a'r pethau maent yn hoffi eu gwneud. Mae'n gydbwysedd o ddefnyddio gwybodaeth ochr yn ochr â deall beth sy'n fuddiol i ddysgu a datblygiad plant. Nid yw am ddilyn arweiniad plant yn gyfan gwbl, ond hefyd am fod yn ystyriol er mwyn sicrhau bod plant yn dysgu, datblygu ac yn cael profiadau newydd. I ni yn Chuckles, mae bod 'dan arweiniad plant' yn golygu ein bod yn deall beth mae plant ei *eisiau* a'i *angen* ar gyfer eu twf a'u datblygiad.

## Sut mae ymarferwyr yn cael eu cefnogi er mwyn dilyn dull 'dan arweiniad plant' wrth chwarae a dysgu?

Rydym wedi treulio llawer o amser yn siarad gyda'n tîm. Mae treulio amser gyda nhw yn yr ystafelloedd a chael trafodaethau agored wedi bod yn bwysig iawn. Nid yw yn beth hawdd i'w ddeall yn y lle cyntaf, yn arbennig os ydych wedi arfer gyda dysgu o dan drefn benodol. Mae bod yn agored i arddull o ddysgu mwy pen agored yn gallu bod ychydig yn frawychus. Roedd herio ffordd o feddwl rhai staff oedd wedi bod gyda ni am amser hir yn anodd ar y cychwyn. Roeddem yn meddwl am ffordd o weithredu newidiadau mawr mewn ffordd nad oedd yn teimlo'n ormod i staff.


**National Day Nurseries Association Cymru**
3 Connaught House, Riverside Business Park, Benarth Road, Conwy, LL32 8UB
Email: wales@ndna.org.uk Tel: 01824 707823 www.ndna.org.uk/ndna-cymru/

Er mwyn delio gyda'r posibilrwydd o bryder, straen a phoen meddwl, treuliwyd llawer o amser gyda staff, ochr yn ochr yn mynd drwy'r newidiadau. Mi wnaethom gwblhau pethau gyda'n gilydd, trafod cynllunio, arsylwi ac asesiadau gyda nhw ar yr adeg yr oedd yn digwydd. Gwnaethom hyn mewn camau bach a heb ruthro'r broses. Digwyddodd y broses dros gyfnod o flwyddyn a hanner i ddwy flynedd, yn hytrach na disgwyl i newidiadau gymryd lle dros nos. Roeddem yn lwcus i gael staff cyson yn ystod y cyfnod yma. Rhoddodd hyn y cyfle i ni sefydlu'r dull yn raddol. Roedd yn bwysig i ni dreulio'r amser yma gyda staff yn gwneud yn siwr eu bod yn gyfforddus gyda'r dull ac yn hyderus cyn i ni gamu'n ôl a gadael iddynt gario ymlaen.

Bu'n rhaid i ni wneud penderfyniad ymwybodol i flaenoriaethu amser i wneud y newidiadau yma. Ac mi wnaethom geisio sicrhau bod rhywun ar gael pob amser i gefnogi staff gyda chwestiynau neu heriau. Os nad oedd un rheolwr ar gael, roedd rhywun arall y gallai staff droi atynt. Buom yn gweithio fel tîm i sicrhau bod y gefnogaeth mewn lle. Roedd hyn yn bwysig i ni gan fod y sector wedi wynebu llawer o newidiadau dros y blynyddoedd, gydag ymarferwyr yn gorfod addasu yn gyson, wrth barhau i ddarparu gofal a phrofiadau datblygu ardderchog i blant.

Cawsom hefyd hyfforddiant mwy ffurfiol, drwy ein consortia addysg a chyrff ymbarél, ond i ni, yr hyn oedd yn allweddol oedd mwyn i'r ystafelloedd i gefnogi yn dilyn unrhyw hyfforddiant proffesiynol. Roedd yr amser a dreuliwyd yn canolbwyntio ar drafodaethau yn rhoi cyfle i staff i fynegi unrhyw ddryswch neu i ddweud os nad oeddynt yn deall unrhyw beth. Gwnaethom sicrhau staff ei bod yn broses barhaus ac nid yn rhywbeth oedd am ddigwydd dros nos, rhywbeth roedd angen canolbwyntio arno am gyn hired ag y byddai'n ei gymryd i ni ddatrys sut byddai'n gweithio i ni. Esboniwyd efallai na fyddem yn ei gael yn iawn y tro cyntaf, ond bod hynny'n rhan o'r broses, y byddem yn adlewyrchu ac yn symud ymlaen.

## Gweithredu dysgu dan arweiniad plentyn – lle wnaethoch chi gychwyn?

Dechreuodd yr holl broses tua 5-6 mlynedd yn ôl. Gwnaeth ein consortia addysg roi hyfforddiant o'r enw 'Seize the season', a dyna'r sbardun. Gwnaeth yr hyfforddiant ein cynorthwyo i adlewyrchu ar y rhannau mwy traddodiadol i'n cynllunio, er enghraifft, pynciau. Wedi ystyried, roeddem yn teimlo nad oeddynt yn berthnasol i'n plant a'u profiadau unigol. Wedyn mi wnaethom gychwyn gwneud llawer o waith ar y tymhorau, diwrnodau arbennig a gwyliau sy'n cymryd lle drwy'r flwyddyn. Roedd yn newid mawr i'n staff ond dyna sut daeth ein cynllunio a'r modd roeddem yn meddwl am ddysgu yn fwy perthnasol ac wedi ei selio ar beth roedd y plant yn eu profi o ddydd i ddydd.

Roedd newidiadau mawr yn ystod y cyfnod clo gan ein bod wedi aros ar agor a bod blaenoriaethau'n newid. Treuliom amser yn chwarae gyda'r plant. Roedd yn bosibl i ni aros ac adlewyrchu. Roedd y cyfnod hwn yn ein cynorthwyo i bwysleisio pa mor sylfaenol yw chwarae i ddysgu a datblygiad plant. Gallai staff wedi eu hunain yn y profiadau roeddent yn eu cael gyda


**National Day Nurseries Association Cymru**
3 Connaught House, Riverside Business Park, Benarth Road, Conwy, LL32 8UB
Email: wales@ndna.org.uk Tel: 01824 707823 www.ndna.org.uk/ndna-cymru/

phlant o ddydd i ddydd.   Adeiladwyd ar hynny gyda'r cyfleon dysgu gynigwyd ganom a'r amgylchedd y gwnaethom ei ddatblygu.

Wedi adlewyrchu, penderfynwyd amlygu ardaloedd crai o fewn yr amgylchedd, a hynny ym mhob ystafell ar draws y feithrinfa, o fabanod i oedran cyn-ysgol. Y chwe ardal grai oedd - chwarae gyda blociau, chwarae rôl, cornel cartref, ardal stori, ardal archwilio ac ardal greadigol/crefftau. Roedd yr ardaloedd crai yma yn ein holl ystafelloedd gydag addasiadau i gyd-fynd ag anghenion datblygu'r plant o fewn ystafelloedd penodol. Wrth gynllunion ein hamgylchedd, rydym yn cychwyn gyda'r ardaloedd crai ac yn datblygu ardaloedd ychwanegol yn unol â'r hyn wyddom am anghenion datblygu'r plant o fewn yr ystafell honno. Er enghraifft, mae sensori yn ardal ychwanegol i fabanod ac mae gwaith coed yn ardal ychwanegol ar gyfer plant cyn-ysgol. Drwy gydol y flwyddyn, rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd drwy ein harsylwi, i addasu a gwella'r amgylchedd yn ddibynnol ar anghenion y plant.

Roedd cyhoeddi'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn cadarnhau bod popeth roeddem wedi gweithio i'w ddatblygu yn cael ei annog drwy'r ddogfen hon. Rhoddodd hyn hyder i staff a'n cefnogi fel lleoliad i gymryd y cam nesaf i ddatblygu ein prosesau arsylwi, asesu a chynllunio.

## Beth fu'r llwyddiannau ein taith tuag at newid ?

Rydym bob amser wedi bod yn lleoliad sydd wedi cofleidio'r awyr agored ac mae'r cwricwlwm yma yn pwysleisio dysgu awyr agored i blant. Mae'r pwyslais ar ddysgu drwy chwarae yn wych a chwarae go-iawn, heb ei ruthro, ac sy'n dal sylw'r plentyn. Mae canolbwyntio ar y broses nid y canlyniad wedi bod yn newid rydym wedi ei fwynhau ac yn newid yn y ffordd rydym yn edrych ar ddysgu a datblygu. Mae llwyddiant pob plentyn unigol yn cael ei ddathlu. Mae'r staff wedi elw hefyd yn ogystal â'r plant ac mae wedi cefnogi rhieni/teuluoedd i fod yn cymryd mwy o ran wrth ddysgu eu plant.

Mae staff wrth eu boddau yn treulio amser o ansawdd gyda phlant, yn dod i'w adnabod yn sylwi arnynt, yn deall beth maent yn ei hoffi, beth nad ydynt yn ei hoffi, deall beth maent ei angen. Mae ein staff yn caru eu gwaith. Maent yn mwynhau arsylwi ar blant, maent yn teimlo bod pwrpas i hyn. Rydym yn gwerthfawrogi'r rheolaeth mae'n ei roi i ni fel ymarferwyr ac rydym yn teimlo ein bod yn cael ei gwerthfawrogi a'n parchu drwy'r ymddiriedaeth sy'n cael ei i ni ddehongli'r cwricwlwm a'i weithredu mewn ffordd sy'n gweithio i bob lleoliad unigol. Mae cael yr hyblygrwydd yma yn bwysig, gallai sut rydym ni yn gweithredu bod yn hollol wahanol i sut mae meithrinfa gyfagos yn gweithredu, ond mae'n bersonol iddynt hwy, eu lleoliad a'u plant.  Mae'n caniatáu i ni gynnig i'n plant beth maent ei angen i'w cynorthwyo i dyfu a datblygu. Rydym yn hyderus gyda'r hyn rydym yn ei wneud ac rydym yn gwybod ei fod yn gweithio, ac mae hynny'n deimlad braf iawn, nid dim ond i mi fy hun ond i'r staff hefyd. Maent yn teimlo eu bod yn cael effaith cadarnhaol ar y plant yn ein meithrinfa.


**National Day Nurseries Association Cymru**
3 Connaught House, Riverside Business Park, Benarth Road, Conwy, LL32 8UB
Email: wales@ndna.org.uk     Tel: 01824 707823     www.ndna.org.uk/ndna-cymru/

## Sut ydych chi’n teimlo bod eich agwedd at ddysgu sy’n cael ei arwain gan y plentyn a’ch ymrwymiad i gynnig cyfleoedd dysgu go-iawn a phwrpasol wedi effeithio ar ddysgu a datblygiad plant yn y lleoliad?

Ar y cyfan, teimlwn fod plant yn dangos ystod ehangach o sgiliau caffael a datblygu. Mae sgiliau annibyniaeth plant yn rhywbeth sydd wedi gwella’n aruthrol, gan gynnwys annibyniaeth yn eu dysgu eu hunain. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu cynnwys mwy o gyfleoedd o fewn ein hamgylcheddau gan fod gan blant y sgiliau i gael mynediad atynt a pharhau i ddatblygu’r sgiliau hynny a dysgu. Mae hyn yn rhoi mwy o reolaeth i blant dros eu dysgu. Nid yw gwaith coed, er enghraifft, yn rhywbeth sy'n digwydd am 3:00pm ar ddydd Mercher, mae'n rhan o'r amgylchedd ac mae ar gael yn gyson i blant ei ddefnyddio. Rydyn ni’n gweld strwythurau mwy cymhleth mewn chwarae bloc, creadigaethau ysbrydoledig gyda rhannau rhydd ac iaith a geirfa estynedig yn cael eu defnyddio pan fydd plant yn ymchwilio neu’n ailadrodd straeon. Rydyn ni'n gweld cymaint mwy gan ein plant nag erioed o'r blaen.

## Sut ydych chi’n sicrhau eich bod yn cefnogi datblygiad ar draws y pum llwybr datblygiadol wrth ddilyn dull dysgu a arweinir gan blant?

Teimlwn mai'r peth pwysicaf yw sicrhau bod staff yn deall beth yw'r llwybrau datblygiadol. Ni allwch roi'r ddogfen i'r staff ar ddydd Gwener ac yna bore dydd Llun disgwyl i bawb wybod beth maent yn ei wneud. Mae llawer o wybodaeth yn y cwricwlwm y mae staff angen yr amser i allu darllen, ystyried a meddwl sut mae'n edrych o fewn eu lleoliad.

Wrth edrych ar ein hamgylchedd, rydym yn defnyddio’r llwybrau datblygiadol (Perthyn, Cyfathrebu, Archwilio, Datblygiad Corfforol a Lles) fel canllaw i fyfyrio arnynt er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig agwedd gyfannol at ddysgu a datblygiad plant. Yna byddwn yn adeiladu ar hyn i ystyried beth y gall ein hoedolion sy’n galluogi ei ddysgu o'u harsylwi a sut y gallant gefnogi a chynnal y dysgu a'r datblygiad trwy gysylltiadau, addasu'r amgylcheddau neu gynllunio profiadau difyr.

Wrth gwblhau ein hasesiadau o blant, roeddem am sicrhau bod y staff yn adnabod y plant yn iawn ac yn eu deall. I gefnogi hyn, mae ein staff yn cwblhau arsylwadau hir. Byddant yn arsylwi plentyn am tua 20-25 munud, unwaith bob pythefnos. Diogelir amser staff i gwblhau'r arsylwadau hyn. Roedd cynnal yr arsylwadau hyn yn teimlo fel trobwynt mawr i ni ddeall pob plentyn unigol a sut maent yn cael mynediad at y cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt mewn perthynas â’r pum llwybr datblygiadol. Mae sicrhau amser i ddadansoddi’r arsylwadau yn wirioneddol bwysig ac i allu ystyried sut mae hynny’n mynd i ddylanwadu ar gynllunio a’r camau nesaf mewn dysgu a datblygu.

## Sut ydych chi’n teimlo mae’r agweddau yma a’r cwricwlwm yn cefnogi datblygiad plant gydag anghenion dysgu ychwanegol?

Mae’r cwricwlwm yn annog canolbwyntio ar bob plentyn unigol a’u hanghenion sy’n cefnogi ymarfer cynhwysol o’r cychwyn. Mae’r prosesau i gefnogi anghenion unigol wedi eu mewnblannu mewn ymarfer yn hytrach na bod yn rhywbeth ychwanegol. Mae’r amgylchedd yn fwy cynhwysol ac mae plant yn gallu cael mynediad ato yn annibynnol. Nid yw plant unigol yn cael eu symud i ffwrdd o’r grŵp yn rheolaidd er mwyn cwblhau gwaith ychwanegol, maent yn cael eu cynnwys yn naturiol yn y cylch cynllunio parhaol. Mae’r cwricwlwm yn cefnogi staff i sylwi ac ymateb i anghenion efallai nad oeddynt wedi eu hamlygu cynt, a thrwy hynny sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu cyfarfod.

## A yw'r lleoliad wedi cydweithio â lleoliadau/ysgolion eraill i rannu arfer da a chefnogaeth rhwng lleoliadau? (Rhwydweithio, astudiaethau achos, cyfarfodydd ALl/hyfforddiant)

Rydym yn aml yn agor ein drysau i leoliadau ac ysgolion eraill i gynnig ymweliadau i rannu ymarfer effeithiol. Rydym yn gweithio’n agos gyda’n consortia addysg a sefydliadau ambarél i rannu arfer effeithiol trwy rwydweithiau a digwyddiadau. Rydym hefyd wedi rhoi cyflwyniadau ar ein hymarfer i amrywiaeth o gynulleidfaoedd yn ein hawdurdod lleol a ledled Cymru.

O ran ymweliadau, rydym yn ymwybodol o sut y gall yr ymweliadau effeithio ar y plant ac felly rydym yn ystyried ymwelwyr yn ofalus yn ystod oriau agored ac yn cyfyngu ar nifer yr ymweliadau bob tymor. Nid ydym am i'r staff na'r plant deimlo eu bod yn cael eu harddangos yn gyson. Felly rydym yn ymwybodol o gadw cydbwysedd iach o rannu ein harferion a blaenoriaethu ein staff a'n plant.

## A oes unrhyw gyngor y byddech yn ei roi i leoliadau eraill sy’n ceisio symud tuag at ddull sy’n cael ei arwain yn fwy gan y plentyn neu sy’n ceisio ymgorffori profiadau dysgu mwy dilys a phwrpasol i blant?

Un peth pwysig i'w ystyried yw sut i gynnwys rhieni/teuluoedd yn y broses. Gall gwneud hynny gefnogi’r berthynas rhwng y feithrinfa a’r cartref, cefnogi dealltwriaeth rhieni/teuluoedd am ddysgu a datblygiad eu plentyn, a gall helpu i leihau gwrthwynebiad i newid y gall rhai rhieni/teuluoedd ei deimlo. Efallai y gwelwch fod rhai rhieni/teuluoedd yn gallu eich cefnogi drwy’r broses hefyd.

Ond y cyngor pwysicaf yw i gymryd eich amser. Peidiwch â cheisio newid popeth ar unwaith. Cymerwch gam yn ôl, sylwch ar yr hyn y mae'r plant yn mwynhau ei wneud a chanolbwyntiwch ar y meysydd hynny yn gyntaf. Dewch i adnabod y plant trwy dreulio amser gyda nhw a darganfod beth maen nhw'n ei hoffi, beth nad ydyn nhw'n ei hoffi. Cael yr amser penodol hwnnw i arsylwi a sylwi. Gwnewch yn siŵr bod y newidiadau rydych chi'n eu gwneud yn addas ar gyfer eich lleoliad. Mae'n hawdd cymharu'ch hun ag eraill, ond mae pawb yn wahanol. Mae’n dda rhannu syniadau, ond mae


**National Day Nurseries Association Cymru**
3 Connaught House, Riverside Business Park, Benarth Road, Conwy, LL32 8UB
Email: wales@ndna.org.uk Tel: 01824 707823 www.ndna.org.uk/ndna-cymru/

angen i chi ddewis a dethol beth sy'n gweithio i chi a myfyrio'n barhaus i sicrhau nad ydych chi'n colli golwg ar eich ethos, eich plant a'ch staff eich hun.

Er enghraifft, rydym yn treulio llawer o amser yn yr awyr agored ac mae gennym y lle a'r gallu i wneud hynny. Os oes gennych chi leoliad llai sydd heb eu hardal awyr agored eu hunain ac sy'n gorfod cerdded ar draws ffordd i barc lleol, bydd y dull o ddysgu yn yr awyr agored yn wahanol. Yn yr un modd, mae gan rai lleoliadau gyfoeth o adnoddau bywyd go iawn yn eu 'cornel cartref' gan gynnwys llond trol o ddillad gwisgo fyny. Fodd bynnag, gan ein bod yn lleoliad mawr a phrysur, rydym yn ymwybodol o'r angen i beidio gorlenwi ein gofod rhag iddo fod yn teimlo'n ormod i'r plant.  Mae'n rhaid meddwl am sut mae ein hamgylcheddau'n gweithio i'n plant a'n lleoliad. Myfyriwch ar eich ymarfer yn bendant, ond wrth ystyried datblygu eich ymarfer a'ch darpariaeth peidiwch â theimlo na allwch ddewis a chymysgu syniadau a welwch, yn dibynnu ar sut rydych chi'n teimlo y byddent yn gweithio i chi. Peidiwch ag ofni treialu a gwneud camgymeriadau hefyd. Mae'r cyfan yn rhan o'r broses fyfyrio.

## Cefnogaeth Bellach

- Taflen NDNA Cymru **Dysgu Dilys**: https://ndna.org.uk/early-years-factsheets/
- Taflen NDNA Cymru **Dysgu Chwareus** : <https://ndna.org.uk/early-years-factsheets/>
- Taflen NDNA Cymru **Creu Profiadau Ymgysylltu**: learning opportunities for younger learners factsheets, NDNA Cymru, Hwb: https://hwb.gov.wales/repository/resource/31667f80-e617-4c10-8e04-ced32b765c45/overview
- Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir: **modiwlau a gwybodaeth gefnogol**, Hwb - https://hwb.gov.wales/repository/resource/d34b921e-3b07-4524-87b5-e461540c5ff7/overview
- Dysgu Proffesiynol: cymorth dysgu sylfaen i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau (gan gynnwys **Modiwl dysgu dilys a phwrpasol ar lein**) – modiwlau - https://hwb.gov.wales/repository/resource/b8781f79-5eb7-4548-a20e-a17b0da88df2/overview


**National Day Nurseries Association Cymru**
3 Connaught House, Riverside Business Park, Benarth Road, Conwy, LL32 8UB
Email: wales@ndna.org.uk   Tel: 01824 707823   www.ndna.org.uk/ndna-cymru/